


# Ardal Natur West View, Penyffordd

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Ardal Natur West View ym mhen deheuol pentref Penyffordd, yn Sir y Fflint, ochr yn ochr â ffordd osgoi'r A550. Er bod llwybr troed yn rhedeg ochr yn ochr â'r tir, nid yw'n hygyrch i ddefnyddwyr.

Mae'r ardal wedi cael ei phrydlesu gan Gyngor Cymuned Penyffordd, sy'n gweithredu eu "Cynllun Bro Penyffordd" i'w gwblhau yn 2030. Un maes ffocws pwysig i'r cyngor yw sicrhau bod coridorau bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn cael eu hannog ar draws y pentref, gan ddarparu mannau gwyrdd cymunedol, coetiroedd, ac adfer hafanau bywyd gwyllt ac ardaloedd cadwraeth natur newydd lle bo hynny'n bosibl.

Mae WoodsWork yn Gwmni Buddiannau Cymunedol sy'n rheoli Ardal Natur West View, ac maen nhw'n gweithio i ddiogelu eu hamgylcheddau rhag effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd er budd eu cymunedau. Eu nod yw diogelu'r cynefinoedd a choetiroedd presennol i helpu i wella bioamrywiaeth a gwarchod bywyd gwyllt. Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'u cymunedau lleol, awdurdodau ac ysgolion, gan hwyluso cyfleoedd addysgol a'r defnydd o fannau gwyrdd at ddibenion llesiant.

"Mae'r plant wedi bod yn ymwneud cymaint â datblygiad y safle ac wedi mwynhau'r cyfle i blannu eirlys a choed."

Rhoddwyd caniatâd i WoodsWork ddatblygu'r tir yn ardal natur i'w defnyddio gan y gymuned leol ac i wella ei werth ecolegol. Ers hynny, maen nhw wedi cynnal digwyddiadau cymunedol rheolaidd i annog preswylwyr a defnyddwyr i gyfrannu at glirio mieri a chreu llwybrau troed i sicrhau bod yr ardal yn fwy hygyrch.

Fel rhan o'n gwaith ar y cynllun Coetiroedd Cymunedol, a gafodd ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, roeddem ni'n gallu gweithio mewn partneriaeth â WoodsWork i wella eu gweledigaeth ar gyfer yr ardal natur.

Y nod oedd gwella'r safle drwy blannu coed brodorol ychwanegol, gan gynnwys masarnen fach, cyll, celyn, ysgawen, criafol, ceirios a rhosod i gynyddu bioamrywiaeth y coetiroedd a gwella'r cyfleoedd ar gyfer pryfed peillio. Cafodd ardal hefyd ei chlirio i greu gweirglodd a'i phlannu gyda 600 o fylbiau blodau gwyllt i gefnogi bywyd gwyllt coetiroedd ymhellach a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ar gyfer pryfed peillio.

Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, ymgysylltu â phobl ifanc, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy

TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES · WoodsWork CIC · Pen-y-Ffordd Community Council · Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government · Cronfa Treftadaeth / Heritage Fund



Er mwyn sicrhau bod yr ardal natur yn fwy hygyrch a bod modd i drigolion lleol ei defnyddio, cafodd y llwybrau presennol eu gwella, a chafodd 250 metr o lwybrau newydd eu creu drwy'r ddôl blodau gwyllt newydd, gyda choed ffrwythau'n cael eu plannu i'r gymuned eu mwynhau.

Un o brif amcanion y prosiect oedd meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth ymysg aelodau iau'r gymuned i fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ddarparu cyfleoedd addysgol ar yr un pryd. Fe wnaeth myfyrwyr o Ysgol Penyffordd a St John the Baptist VA Primary School gymryd rhan yn y gwaith o wella'r safle, gan gynnwys plannu nifer o'r coed ffrwythau y byddan nhw'n gallu eu gweld, eu cynnal a'u cynaeafu. Fe wnaeth y ddwy ysgol fynegi eu diolch am gymryd rhan yn y prosiect ac maen nhw'n bwriadu parhau i ddefnyddio'r safle ar gyfer dysgu, gan fod yn faes ffocws penodol ar gyfer eco-gyngor myfyrwyr St John the Baptist











"

Rydym ni'n bwriadu ymweld â'r safle unwaith yr wythnos, os nad mwy, fel rhan o addysg y disgyblion.

"

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

WoodsWork CIC

PEN-Y-FFORDD COMMUNITY COUNCIL

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund